# LINDSAY DAVIES

## CLWB PÊL-RWYD DARE VALLEY FLYERS

Trwy waith caled a dyfalbarhad, sefydlodd Lindsay'r clwb pêl-rwyd newydd sbon yma ym mis Ionawr. Hi oedd yn gyfrifol am bob agwedd ar y clwb, gan gynnwys llunio dogfennau llywodraethu, recriwtio gwirfoddolwyr a chwaraewyr, sicrhau nawdd a materion cyllid. Mewn cyfnod byr, llwyddodd Lindsay i recriwtio pwyllgor, sicrhau dau grant a noddwyr di-ri, a hyfforddi 5 hyfforddwr gwirfoddol. Erbyn hyn mae gan y clwb fwy na 60 o aelodau rhwng 7 ac 16 oed sy’n chwarae gemau’n wythnosol.

Mae Lindsay'n treulio oriau maith yn cadeirio ac yn rheoli'r clwb bob wythnos, gan ymdrechu'n barhaus i'w wella a'i ehangu. Mae hi wedi trefnu bod y grwpiau iau yn cystadlu mewn cynghrair gystadleuol am y tro cyntaf er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau feithrin eu sgiliau. Mae hi hefyd wedi meithrin cydberthnasau cryf yn y gymuned. Yn ddiweddar, cynhaliodd y clwb ei noson ddathlu gyntaf erioed. Roedd yr achlysur yn gyfle gwych i ddathlu llwyddiant y clwb sydd, i raddau helaeth, o ganlyniad i waith caled Lindsay.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## MEDI 2024